# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2017

Amser: 09.33 - 11.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4415

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Suzy Davies AC (yn lle Angela Burns AC)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant<br>Simon Dean, Llywodraeth Cymru<br>Alan Brace, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Sian Thomas (Clerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Amy Clifton (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jayne Bryant AC, Julie Morgan AC ac Angela Burns AC a dirprwyodd Suzy Davies AC ar ran Angela Burns AC.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 - sesiwn dystiolaeth 1 - Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant a'u swyddogion.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor i egluro a yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn caniatáu cyfuno o ffynonellau eraill mewn ffordd debyg i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2.3 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn amlinellu'r cynigion y mae wedi eu cymeradwyo ynghylch sut y bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r buddsoddiad ychwanegol i leihau amserau aros.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Defnyddio meddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - Gwybodaeth ychwanegol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

3.1a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â'r ymchwiliad i ddefnyddio meddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal.

### 3.2 Defnyddio meddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal – Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

3.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mewn perthynas â'r ymchwiliad i ddefnyddio meddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal.

### 3.3 Defnyddio meddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal – Gwybodaeth ychwanegol gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

3.3a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol mewn perthynas â'r ymchwiliad i'r defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal.

### 3.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynghylch amseroedd aros canser

3.4a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o ran amseroedd aros canser.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 – Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd yn ystod eitem 2 y cyfarfod.